**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 28 Gorffennaf 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cadeirydd: Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Cymdeithasol Mewnol / Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

**Awdur yr Adroddiad:** Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Cymunedol

**Teitl:** Dyfodol Gwasanaethau Gofal Mewnol

## 1. Am beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am ganlyniadau cam cyntaf y broses ymgynghori ar wasanaethau gofal cymdeithasol mewnol h.y. yr wybodaeth a gasglwyd o'r adolygiadau gan unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion i gynnal ymgynghoriad ffurfiol â'r holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Cabinet o'r ymarferiad casglu gwybodaeth a gofyn i Aelodau gytuno i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y cyhoedd, ynglŷn â'r dyfodol a awgrymir ar gyfer pob gwasanaeth.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod Aelodau'n cytuno i ymgynghori'n gyhoeddus ar yr awgrymiadau ar gyfer Awelon, Cysgod y Gaer, Dolwen a Hafan Deg.

Bod Aelodau'n cytuno i gyflwyno tendr ar gyfer darparu gofal cartref yng Nghynlluniau Gofal Ychwanegol yn Llys Awelon, Nant y Môr a Gorwel Newydd.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Ar 20 Mawrth 2014, cytunodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad fod grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu i 'edrych ar opsiynau gwerth am arian ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y Sir".

4.2 Datblygodd y Grŵp arfarniad opsiynau ar gyfer pob un o'r gwasanaethau mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 2 Hydref 2014 a'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014. Cytunwyd:

(a) yn unol â'r fframwaith statudol priodol, i ymgynghori â phob defnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd ar y cynigion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn cynnwys asesu eu hanghenion a pha ddarpariaeth addas arall sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny;

(b) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ar foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol;

(c) adroddiad/adroddiadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau y cyfeirir atynt yn (a) a (b) uchod i'w cyflwyno i'r Grŵp Tasg a Gorffen cyn eu cyflwyno i'r Cabinet gydag arfarniad opsiynau ar gyfer pob un o'r gwasanaethau, a bod y

(d) Cabinet yn cadarnhau na fydd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth unigol yn cael ei symud oni bai bod darpariaeth addas arall wedi ei nodi.

4.3 Yn Ionawr 2015, cytunodd CET ar y fethodoleg ar gyfer asesu anghenion unigolion a chasglu eu barn ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth yn ogystal â chylch gorchwyl ac amserlenni'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, cafwyd cyngor gan y Sefydliad

Ymgynghori ynglŷn â'r fethodoleg ac eglurwyd bod y cam cyntaf, h.y. asesu anghenion unigolion mewn gwirionedd yn ymarferiad casglu gwybodaeth i helpu i gynnal ymgynghoriad priodol, gyda'r Cabinet, ar sail yr wybodaeth honno, yn cytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ail gam.

4.4 Bydd Aelodau'n nodi bod yr awgrymiadau gan y Grŵp Tasg a Gorffen isod yn dangos yn glir bod yr asesiadau a barn unigolion a theuluoedd wedi eu hystyried (gweler yr adroddiad adborth yn Atodiad 1). Cynigir atebion sy'n canolbwyntio ar foderneiddio'r gwasanaeth a ddarperir trwy fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'r boblogaeth yn ehangach o ran natur a ffurf gofal a chymorth modern, yr un pryd â chanolbwyntio adnoddau ar feysydd lle mae galw uchel a hefyd sicrhau'r arbedion angenrheidiol.

4.5 Dyma'r canlyniadau o'r wybodaeth a gasglwyd:

4.5.1 Hafan Deg

Edrychodd yr aseswyr ar nifer o feini prawf ar gyfer y 24 unigolyn sy'n mynychu Hafan Deg ar hyn o bryd rhwng 1 a 3 diwrnod yr wythnos. Gwelwyd bod angen cymorth canolig neu uchel ar y rhan fwyaf o unigolion. Mae'r adroddiad yn Atodiad 2.

Yn lleol, mae dewis o wasanaethau cymunedol eraill sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ychydig o'r unigolion yn ogystal â nifer o gartrefi gofal preswyl sy'n cynnig gofal dydd, er mai ar sail ad hoc y mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Tra bod y rhan fwyaf o'r unigolion wedi dweud na fyddent eisiau defnyddio'r gwasanaethau eraill, mae darpariaeth arall ar gael a fyddai'n diwallu eu hanghenion. Hefyd byddai'n bosibl contractio gwasanaethau pwrpasol a fyddai'n galluogi i'r unigolion hynny y mae angen y lefel honno o ofal arnynt i barhau i gyfarfod eu ffrindiau.

**Yr awgrym fod Hafan Deg yn llunio partneriaeth gyda sefydliad allanol ac yn trosglwyddo'r adeilad iddynt, yn comisiynu gwasanaeth gofal dydd o fewn yr adeilad, a hefyd yn galluogi i asiantaethau trydydd sector ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar i bobl hŷn sy'n lleihau unigedd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth a hybu gwytnwch.**

Byddai hyn yn galluogi i'r adeilad gael ei ddefnyddio er budd pobl hŷn yn y Rhyl, yn cynnwys y rhai ag anghenion lefel isel sy'n ei fynychu ar hyn o bryd, tra byddai'n cefnogi'r egwyddor o hybu annibyniaeth a galluogi i'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth presennol barhau i fynychu gyda'i gilydd, gyda'r un grŵp staff. Byddai hyn yn arbed gwerth £100k o refeniw ar y costau rhedeg presennol.

4.5.2 Dolwen

Edrychodd yr aseswyr ar nifer o feini prawf ar gyfer yr 22 unigolyn sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl safonol 30 gwely hwn, yn cynnwys yr iaith Gymraeg, darpariaeth arall a chysylltiad â'r gymuned leol. Mae'r adroddiad, sy'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau pe byddent yn cael eu symud, i'w weld yn Atodiad 3.

Mae 13 o welâu preswyl yn wag o fewn pellter rhesymol i gartref Dolwen ac nid oes unrhyw welâu nyrsio neu Iechyd Meddwl Pobl Hŷn ar gael.

**Yr awgrym ar gyfer Dolwen yw llunio partneriaeth gyda sefydliad allanol a throsglwyddo'r gwasanaethau cyfan iddynt, gan gofrestru ar gyfer gofal iechyd meddwl pobl hŷn.**

Byddai hyn yn sicrhau y gallai unigolion sy'n byw yno barhau i wneud hynny, wedi eu cefnogi gan yr un staff ag sydd yno ar hyn o bryd a chael yr un mynediad at y gymuned leol ag ar hyn o bryd. Byddai'n arbed gwerth £200k o refeniw ar gost yr 22 unigolyn presennol a £75k ar gostau cynnal oherwydd byddai'r darparwr newydd yn cael ei

gomisiynu gan ddefnyddio cyfraddau arferol. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y byddai derbyniad cyfalaf yn annhebygol oherwydd byddai angen i'r darparwr newydd wario llawer o arian i sicrhau bod yr adeilad yn cyrraedd y safonau gofynnol. Byddai hefyd yn datblygu lefel o ddarpariaeth Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yn yr ardal - mae galw cynyddol am ofal o'r math yma. Bydd cynlluniau ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol o fewn y dref yn parhau.

4.5.3 Awelon

Edrychodd yr aseswyr ar nifer o feini prawf ar gyfer yr 20 unigolyn sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl safonol 26 gwely hwn, yn cynnwys yr iaith Gymraeg, darpariaeth arall a chysylltiad â'r gymuned leol. Mae'r adroddiad, sy'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau pe byddent yn cael eu symud, i'w weld yn Atodiad 4.

Mae 8 gwely nyrsio gwag ac 8 gwely gofal preswyl gwag o fewn pellter rhesymol i Awelon.

**Yr awgrym ar gyfer Awelon yw peidio â derbyn unrhyw un o'r newydd a gweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd yn ôl eu pwysau i'w symud i gartrefi addas eraill fel y bo'n briodol a llunio partneriaeth gyda pherchennog Llys Awelon i ddatblygu mwy o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle.**

Byddai hyn yn sicrhau bod gan yr unigolion sy'n byw yno ddigon o amser i ddod o hyd i ddarpariaeth arall briodol a byddai modd bodloni'r galw am fwy o Ofal Ychwanegol yn Rhuthun (50 o bobl yn aros ar hyn o bryd). Byddai'n rhaid i'r landlord sicrhau y byddai'r gweithgareddau cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghanolfan Awelon yn parhau. Byddai hyn yn arbed gwerth £300k o refeniw ar gost yr 20 unigolyn yn ogystal â £165k ar gost cynnal.

4.5.4 Cysgod y Gaer

Edrychodd yr aseswyr ar nifer o feini prawf ar gyfer yr 11 unigolyn sydd ar hyn o bryd yn y cartref gofal preswyl safonol 23 gwely hwn, yn cynnwys yr iaith Gymraeg, darpariaeth arall a chysylltiad â'r gymuned leol. Mae'r adroddiad, sy'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu heffeithio i ryw raddau, i'w weld yn Atodiad 5.

Nid oes unrhyw wasanaethau preswyl eraill ar gyfer Cysgod y Gaer o fewn pellter rhesymol.

**Yr awgrym ar gyfer Cysgod y Gaer yw llunio partneriaeth â budd-ddeiliaid perthnasol (yn cynnwys BCU a'r trydydd sector) i ddatblygu'r safle'n 'ganolbwynt cymorth' sy'n cynnig cyfleusterau preswyl a gofal ychwanegol yn ogystal â gwasanaeth allgymorth a gofal yn y cartref i'r tenantiaid mewn Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach Corwen a'r cylch.**

Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r unigolion sy'n byw yng Nghysgod y Gaer ar hyn o bryd yn gallu parhau i wneud hynny ond mae hefyd yn datblygu gwasanaethau a fyddai'n cefnogi annibyniaeth ac yn gwella canlyniadau i eraill yn yr ardal leol. Er na fyddai hyn yn gwneud unrhyw arbedion syth, byddai'n dwyn ynghyd elfennau o ofal cartref allanol gyda gwasanaethau preswyl, gan greu cymorth cyfannol mewn ardal â galw isel mewn ffordd llawer mwy cost effeithlon. Gallai hyn arbed arian o ran costau presennol gofal cartref allanol.

4.5.5 Cynlluniau Gofal Ychwanegol

Mae'r 3 Chynllun Gofal Ychwanegol yn eiddo i Gymdeithasau Tai ac mae tenantiaid unigol yn talu eu costau rhent a rheoli'n uniongyrchol iddynt. Hefyd mae gan bob cynllun dîm gofal cartref ar y safle wedi eu staffio gan weithwyr y Cyngor.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r tenantiaid hynny sy'n derbyn gofal cartref i gasglu eu barn ynglŷn â throsglwyddo'r staff gofal cartref i asiantaethau allanol. Yr adborth cyffredinol yw, os yw hyn yn sicrhau bod y gofal a ddarperir gan aelodau unigol o staff yn parhau ac nad yw'n tarfu ar ofal a chymorth unigolion, yna byddai'r rhan fwyaf o unigolion yn gyfforddus â hynny.

**Yr awgrym ar gyfer pob un o'r 3 chynllun yw tendro am ddarparwr gofal ar gyfer pob un ohonynt ac ymgynghori'n ffurfiol â'r staff dan sylw o safbwynt trosglwyddo swyddi. Nid yw hyn yn galw am ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd newid darparwr, nid y gwasanaeth a wneir.**

Trwy wneud hyn, rydym yn elwa ar sicrhau parhad yn y gofal a roddir i unigolion, a gan ganiatáu costau asiantaeth uwch nag arfer i ganiatáu'r amodau a'r telerau presennol, mae'n dal yn bosibl arbed £80k.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darparu gwasanaethau cymdeithasol modern fel Tai Gofal Ychwanegol yn cefnogi'r flaenoriaeth i alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cyfanswm yr arbedion a nodwyd yn yr awgrymiadau uchod yn gyfwerth â £680k ond ni fyddai'r holl arbedion yn cael eu gwneud o fewn yr amserlen wreiddiol o 2 flynedd.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Ar ôl cwblhau'r templed Asesiad o Effaith Cydraddoldeb, dylid ei atodi.**

Dim ond yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol y gellir cwblhau Asesiad o Effaith Cydraddoldeb llawn. Fodd bynnag, mae'r ymarferiad casglu gwybodaeth wedi dangos y byddai'n cael effaith negyddol ar nifer o unigolion hŷn pe byddai angen iddynt symud o'u gwasanaethau presennol.

Fodd bynnag, byddai gwasanaethau eraill modern yn fwy na digonol i liniaru yn erbyn unrhyw effaith negyddol bosibl ar grwpiau poblogaeth gyda nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Gwnaed cais i adolygu gwasanaethau gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac fe'i gwnaed gan Grŵp Tasg a Gorffen.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 1.

Craffwyd ar yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion y dylid ymgynghori ar yr awgrymiadau yn yr adroddiad hwn.
- Awgrymir bod yr wybodaeth a roddir ym Mhapurau'r Ymgynghoriad yn cynnwys enghreifftiau pendant o'r weledigaeth ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol modern yn seiliedig ar fodelau arfer gorau a rhannu tystiolaeth berthnasol ac ymchwil o ffynonellau lleol a chenedlaethol.
- Ni ddylai cyfyngiadau amser artiffisial gyfyngu ar yr ymgynghoriad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r opsiynau sydd yn yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o Gynigion Arbedion Cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Pe na fyddai’r cynigion yn cael eu datblygu, mae'n bosibl na fyddai’r arbedion posibl a neilltuwyd yn cael eu sicrhau ac felly byddai angen cynigion eraill yn eu lle.

## 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae risgiau i’r arbedion angenrheidiol pe na fyddai’r opsiynau uchod yn cael eu sicrhau’n derfynol.
Hefyd mae risg o adolygiad barnwrol pe byddai newidiadau’n cael eu gwneud heb ymgynghori’n ddigonol. Gellir lliniaru hyn trwy ddefnyddio cefnogaeth y Sefydliad Ymgynghori i gynnal ymgynghoriad trylwyr, pe bai’r Cabinet yn cytuno â hyn.

Hefyd mae risgiau i iechyd a lles unigolion bregus pe byddent yn cael eu symud o’u gwasanaethau presennol.

Yn olaf, mae risgiau i ddarparu gwasanaethau modern yn y dyfodol sy’n cefnogi annibyniaeth os na chymerir y camau hyn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Deddf Cymorth Gwladol 1948 a Deddf GIG a Gofal Cymunedol 1990 yn manylu ar gyfrifoldebau Awdurdodau Lleol o ran diwallu anghenion unigolion bregus, yn cynnwys y gallu i ddiwallu anghenion fel yr ystyria’r Awdurdod sy’n briodol. Mae’r olaf hefyd yn cynnwys y pŵer i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr allanol.